Llywodraeth EM

# Chwalu Chwedlau EORI

Mae rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd (EORI) yn Ddynodydd Defnyddiwr (ID) tollau unigryw ar gyfer busnesau.

Bydd rhif EORI a roddir yn y DU yn dechrau gyda GB, wedi'i ddilyn gan 12 digid. Bydd yn cynnwys rhif cofrestru TAW y busnes os yw'r busnes wedi cofrestru ar gyfer TAW.

Bydd rhif EORI a roddir yn yr UE yn dechrau gyda llythrennau gwahanol, yn dibynnu ar y wlad a roddodd y rhif – er enghraifft, bydd rhif a roddwyd yn Ffrainc yn dechrau gyda FR.

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

## Chwedl: Ar ôl Brexit, bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU a rhif EORI a roddir yn yr UE ar bob busnes yn y DU sy'n mewnforio neu sy'n allforio nwyddau o'r DU

### Anwir

Mae nwyddau sy'n cael eu mewnforio a'u hallforio yn mynd drwy'r tollau ddwywaith:

- unwaith pan fyddant yn gadael y diriogaeth y cânt eu hallforio ohoni
- unwaith pan fyddant yn mynd i mewn i'r diriogaeth y cânt eu mewnforio iddi.

Er mwyn cyflwyno datganiad tollau i dollau'r DU, bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU ar fusnesau yn y DU sy'n allforio nwyddau o'r DU neu sy'n mewnforio nwyddau i'r DU.

Ni fydd angen i'r rhan fwyaf o fusnesau yn y DU gyflwyno datganiadau tollau i dollau'r UE, ac felly ni fydd angen rhif EORI a roddir yn yr UE arnynt. Bydd y busnes y maent yn masnachu gydag ef yn cyflwyno'r datganiad i dollau'r UE. Er enghraifft:

- Mae busnes yn y DU yn gwerthu nwyddau i fusnes yn Ffrainc. Y busnes yn y DU yw'r allforiwr. Mae'n gyfrifol am y datganiad allforio yn y DU a bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU arno. Y busnes yn Ffrainc yw'r mewnforiwr. Mae'n gyfrifol am y datganiad mewnforio yn Ffrainc a bydd angen rhif EORI a roddir yn yr UE arno.

Mae rhai amgylchiadau lle bydd angen i fusnesau yn y DU gyflwyno datganiad tollau i'r UE, ac felly bydd angen iddynt gofrestru am rif EORI a roddir yn yr UE hefyd. Er enghraifft:

- Os yw busnes yn y DU sydd â changen yn Ffrainc yn allforio nwyddau o'r DU i'w gangen yn Ffrainc, bydd wedyn yn gyfrifol am wneud datganiad allforio i dollau'r DU yn ogystal â datganiad mewnforio i dollau Ffrainc. Felly, bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU arno, yn ogystal â rhif EORI a roddir yn yr UE.
- Gall rhai contractau gwerthu nodi mai naill ai'r prynwr neu'r gwerthwr sy'n gyfrifol am y datganiad allforio a'r datganiad mewnforio. Mae cyfrifoldebau pob parti'n aml yn cael eu nodi mewn contract gwerthu gan ddefnyddio 'Incoterms'. Set ryngwladol o delerau ac amodau masnachu a ddefnyddir wrth fasnachu'n rhyngwladol yw'r rhain. Os yw busnes yn y DU yn gyfrifol am y datganiad allforio a'r datganiad mewnforio, bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU arno, yn ogystal â rhif EORI a roddir yn yr UE.

**Os yw busnes yn ansicr a fydd angen rhif EORI a roddir yn yr UE arno, dylai siarad â'i asiant, os oes ganddo un. Fel arall, dylai gysylltu â'r awdurdod tollau yn y diriogaeth o'r UE lle mae'n gwneud ei ddatganiad cyntaf, neu'n gwneud cais yn gyntaf am benderfyniad, neu fynd ati i ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar gyfer cysylltu â'r tîm EORI i gysylltu â Chyllid a Thollau EM.**

Llywodraeth EM

## **Chwedl:** Nid oes gan y rhan fwyaf o fusnesau rif EORI a roddir yn y DU i'w galluogi i barhau i fasnachu ar ôl Brexit

**Anwir**

Ers mis Rhagfyr 2018, mae dros 74,000 o fusnesau wedi gwneud cais am rifau EORI, ac wedi'u cael oddi wrth CThEM. Ers mis Awst 2019, mae un wedi cael ei anfon yn awtomatig at 88,000 o fusnesau eraill sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW ac sydd wedi masnachu gyda'r UE o'r blaen.

Os nad yw busnesau eisoes wedi gwneud hynny, bydd yn rhaid i'r busnesau canlynol **wneud cais ar-lein**:

- busnesau sydd heb gofrestru ar gyfer TAW
- busnesau sydd ag is-gwmni sydd hefyd yn masnachu nwyddau gyda'r UE
- busnesau newydd, neu fusnesau sydd wedi dechrau masnachu gyda'r UE ers dechrau 2018
- busnesau sydd â rhif EORI a roddir yn yr UE yn barod.

## **Chwedl:** Mae gwneud cais am rif EORI yn anodd ac yn cymryd tipyn o amser

**Anwir**

**Gall busnesau y mae'n dal i fod angen cael rhif EORI a roddir yn y DU arnynt wneud hyn ar-lein yn GOV.UK. Mae ond yn cymryd 5-10 munud i lenwi'r ffurflen ac mae'n rhad ac am ddim.** Byddant yn cael eu rhif EORI ar unwaith, neu cyn pen 5 diwrnod gwaith os bydd angen i CThEM wneud rhagor o wiriadau.

## **Chwedl:** Er mwyn i fusnesau yng Ngogledd Iwerddon fasnachu gydag Iwerddon, bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU arnynt

**Anwir**

Yn unol â'r dull y mae'r Llywodraeth wedi'i gyhoeddi a fydd yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon am gyfnod dros dro yn dilyn Brexit, ni fydd angen rhif EORI a roddir yn y DU ar y rhan fwyaf o fusnesau yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer eu masnach gydag Iwerddon.

Fodd bynnag:

- Lle bo busnesau yng Ngogledd Iwerddon yn masnachu nwyddau gydag Iwerddon a bod angen datganiad mewnforio neu allforio ar nwyddau, megis y nwyddau hynny sy'n agored i doll ecséis (alcohol, tybaco ac olewau penodol) yn ogystal â nifer fach o nwyddau o dan reolaeth a thrwyddedig, bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU ar y busnesau hynny. Mae rhagor o wybodaeth am **symudiadau sy'n ymwneud â'r mathau hyn o nwyddau** i'w chael ar GOV.UK.
- Os yw busnesau yng Ngogledd Iwerddon yn masnachu nwyddau gydag aelod-wladwriaethau'r UE heblaw Iwerddon, bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU arnynt.

Bydd busnesau sy'n masnachu gydag Iwerddon hefyd eisiau sicrhau eu bod yn deall unrhyw ofynion y mae awdurdodau Iwerddon yn eu cyflwyno ar gyfer masnach rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

Llywodraeth EM

## Chwedl: Bydd angen i bob busnes yn yr UE gael rhif EORI a roddir yn y DU, yn ogystal â rhif EORI a roddir yn yr UE, i barhau i fasnachu gyda'r DU

**Anwir**

Mae nwyddau sy'n cael eu mewnforio a'u hallforio yn mynd drwy'r tollau ddwywaith:

- unwaith pan fyddant yn gadael y diriogaeth y cânt eu hallforio ohoni
- unwaith pan fyddant yn mynd i mewn i'r diriogaeth y cânt eu mewnforio iddi.

Ni fydd angen i'r rhan fwyaf o fusnesau yn yr UE gyflwyno datganiad i dollau'r DU, ac felly ni fydd angen rhif EORI a roddir yn y DU arnynt. Bydd y busnes yn y DU y maent yn masnachu gydag ef yn cyflwyno'r datganiad i dollau'r DU. Er enghraifft:

- Mae busnes yn y DU yn gwerthu nwyddau i fusnes yn Ffrainc. Y busnes yn y DU yw'r allforiwr. Mae'n gyfrifol am y datganiad allforio yn y DU a bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU arno. Y busnes yn Ffrainc yw'r mewnforiwr. Mae'n gyfrifol am y datganiad mewnforio yn Ffrainc a bydd angen rhif EORI yn yr UE arno.

Mae rhai amgylchiadau lle bydd angen i fusnesau yn yr UE gyflwyno datganiad i dollau'r DU, ac felly bydd angen iddynt gofrestru am rif EORI a roddir yn y DU hefyd. Er enghraifft:

- Os yw busnes yn Ffrainc, sydd â changen yn y DU, yn allforio nwyddau o Ffrainc i'w gangen yn y DU, bydd yn gyfrifol am wneud datganiad allforio i dollau Ffrainc a datganiad mewnforio i dollau'r DU. Felly, bydd angen rhif EORI a roddir yn yr UE arno, yn ogystal â rhif EORI a roddir yn y DU.
- Gall rhai contractau gwerthu nodi mai naill ai'r prynwr neu'r gwerthwr sy'n gyfrifol am y datganiad allforio a'r datganiad mewnforio. Mae cyfrifoldebau pob parti'n aml yn cael eu nodi mewn contract gwerthu gan ddefnyddio 'Incoterms'. Set ryngwladol o delerau ac amodau masnachu a ddefnyddir wrth fasnachu'n rhyngwladol yw'r rhain. Os yw busnes yn yr UE yn gyfrifol am y datganiad allforio a'r datganiad mewnforio, bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU arno, yn ogystal â rhif EORI a roddir yn yr UE.

**Gall busnesau yn yr UE y mae angen cael rhif EORI a roddir yn y DU arnynt wneud cais ar-lein yn GOV.UK. Mae ond yn cymryd 5-10 munud i lenwi'r ffurflen ac mae'n rhad ac am ddim. Byddant yn cael eu rhif EORI ar unwaith, neu cyn pen 5 diwrnod gwaith os bydd angen i CThEM wneud rhagor o wiriadau.**

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020

## Chwedl: Bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU ar bob person sy'n prynu nwyddau o'r UE drwy farchnadfeydd ar-lein

**Anwir**

**Nwyddau a dderbynnir drwy'r post**

Pan dderbynnir nwyddau yn y DU drwy'r post, nid oes angen rhif EORI a roddir yn y DU ar y derbynnydd.

**Nwyddau a anfonir drwy gwmni parseli**

Ar gyfer nwyddau gwerth isel a dderbynnir yn y DU, fel arfer ni fydd angen rhif EORI a roddir yn y DU ar y derbynnydd. Mae hyn oherwydd y bydd y cwmni parseli fel arfer yn ymgymryd â rôl y mewnforiwr, a bydd y cwmni'n gyfrifol am ddelio â'r prosesau tollau i gyd.

Ar gyfer nwyddau gwerth uchel a dderbynnir yn y DU, fel arfer derbynnydd busnes fydd y mewnforiwr a bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU arno er mwyn gallu llenwi'r datganiad mewnforio.

Llywodraeth EM

## **Chwedl:** Bydd angen rhif EORI a roddir yn y DU ar yr holl fusnesau yn y DU sy'n gwerthu eu nwyddau drwy farchnadfeydd ar-lein

### Anwir

Mae nwyddau sy'n cael eu mewnforio a'u hallforio yn mynd drwy'r tollau ddwywaith:

- unwaith pan fyddant yn gadael y diriogaeth y cânt eu hallforio ohoni
- unwaith pan fyddant yn mynd i mewn i'r diriogaeth y cânt eu mewnforio iddi.

Mae hyn yn berthnasol i nwyddau a werthir drwy farchnadfeydd ar-lein megis Etsy neu Amazon. Fodd bynnag, oherwydd bod llawer o'r nwyddau a werthir ar farchnadfeydd ar-lein yn cael eu hanfon at y prynwr drwy'r system bost neu gan ddefnyddio cwmni parseli, mae'n bosibl y caiff y broses datgan allforion ei symleiddio ac efallai na fydd angen rhif EORI a roddir yn y DU.

**Nwyddau a anfonir drwy'r post**

Pan anfonir nwyddau drwy'r post o'r DU, nid oes angen rhif EORI a roddir yn y DU ar yr anfonwr.

**Nwyddau a anfonir drwy gwmni parseli**

Mae cwmnïau parseli yn darparu ystod eang o wasanaethau i fusnesau, ac mae'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn dibynnu ar eu perthynas fasnachol a gwerth y nwyddau.

Fel arfer, ni fydd angen rhif EORI a roddir yn y DU ar yr anfonwr ar gyfer nwyddau a anfonir o'r DU drwy gwmni parseli. Mae hyn oherwydd y bydd y cwmni parseli fel arfer yn ymgymryd â rôl yr allforiwr, a bydd y cwmni'n gyfrifol am ddelio â'r prosesau tollau i gyd. Gall y cwmni parseli eich cynghori a oes angen EORI arno i allforio'ch nwyddau.

**Paratoi ar gyfer Brexit yn gov.uk/brexit**

Wedi'i dynnu'n ôl ar 31 Ionawr 2020